Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Pont-y-clun

**Palalwyf Avenue**
**Pont-y-clun**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF72 9EG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Pont-y-clun

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Pont-y-clun |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 422 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 374 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 48 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 8.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 1.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2007 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 26/04/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/06/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae’r pennaeth yn arwain tîm ymroddgar o athrawon brwdfrydig, y daw llawer ohonynt â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad. Mae staff yr ysgol yn deall effaith lles ac yn rhoi pwyslais priodol ar ddiwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion o oedran ifanc. Maent yn ymdrechu i greu ymdeimlad cryf o berthyn, ac mae’r perthnasoedd gweithio cadarnhaol maent yn eu ffurfio â disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddod i’r ysgol, ac mae llawer o rieni’n teimlo’u bod yn cael eu cynnwys ym mywyd yr ysgol. Caiff llywodraethwyr eu cynnwys yn addas mewn sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel a hapus i fod.

Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda, ac mae disgyblion yn aml yn ymgysylltu’n gadarnhaol â’u dysgu. Maent yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu mwy am sut caiff perthnasoedd eu ffurfio a’u cynnal, am yr agweddau sy’n creu hunaniaeth rhywun, ac am grefyddau’r byd. Maent yn dechrau archwilio hanes a diwylliant Cymru, ond nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg, ac o ganlyniad, mae’r cynnydd a wnânt dros gyfnod yn annigonol.

Mae’r ysgol yn datblygu ei dealltwriaeth o sut mae disgyblion yn gwneud cynnydd sy’n cyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, ond megis dechrau datblygu y mae hyn. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen ac yn gwneud cynnydd da mewn datblygu eu medrau llythrennedd. Maent yn defnyddio medrau digidol yn dda ac yn gwneud y gorau o gyfleoedd i fod yn weithredol. Mae llawer ohonynt yn datblygu gwybodaeth a medrau mathemategol da, ond nid ydynt yn defnyddio’r medrau hyn yn ddigon aml neu ar lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn cynnwys syniadau disgyblion wrth gynllunio profiadau dysgu. Mae disgyblion hŷn yn elwa ar gyfleoedd i ddewis sut maent yn dysgu yn ystod gwersi. O oedran ifanc, mae disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a huawdl. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn datblygu’n dda fel dysgwyr annibynnol. Mewn llawer o ddosbarthiadau, mae athrawon yn defnyddio holi yn dda ac yn rhoi arweiniad priodol i ddisgyblion i gefnogi eu dysgu yn ystod gwersi. Mae staff yn galluogi’r disgyblion ieuengaf i fod yn chwilfrydig ac yn greadigol yn eu dysgu sy’n seiliedig ar chwarae, ac mae’r disgyblion hynaf yn datblygu medrau meddwl aeddfed. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, nid yw profiadau dysgu’n herio pob un o’r disgyblion i wneud y cynnydd y dylent ei wneud neu i ddatblygu’n ddigonol fel dysgwyr annibynnol.

## Argymhellion

A1 Mireinio ffocws hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol i wella deilliannau ar gyfer pob un o’r disgyblion mewn modd amserol

A2 Gwella dealltwriaeth yr ysgol o ddilyniant yng Nghwricwlwm i Gymru i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent

A3 Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion disgyblion ag ADY yn bodloni'r gofynion statudol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu gwybodaeth a'u medrau mewn llawer o feysydd y cwricwlwm. Mae disgyblion ag ADY a'r rhai o aelwydydd incwm isel yn aml yn gwneud cynnydd cryf.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda ac yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion iau yn mwynhau cyfleoedd i ymarfer geirfa newydd a chyffrous yn eu dysgu sy'n seiliedig ar chwarae. Maent yn gwrando'n ofalus ar storïau ac yn cynnig eu meddyliau yn hyderus. Mae disgyblion hŷn yn parhau i feithrin eu geirfa yn helaeth ac yn aml yn siarad ag aeddfedrwydd yn ystod gwersi, wrth gydweithio mewn gweithgareddau datrys problemau, ac wrth esbonio'u gwaith i ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn ymateb yn briodol i bobl eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfarch ymwelwyr yn Gymraeg, a gyda chymorth, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ateb cwestiynau sylfaenol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae amgyffrediad disgyblion o'r Gymraeg yn gyfyngedig, ac nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd addas yn siarad Cymraeg wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddarllenwyr hyderus ac yn datblygu amrywiaeth ddefnyddiol o fedrau darllen. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, maent yn defnyddio ystod gynyddol o strategaethau i'w helpu i wneud synnwyr o eiriau anghyfarwydd ac yn defnyddio medrau dod i gasgliad yn fedrus i archwilio cymeriadau yn y llyfrau a ddarllenant. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr mynegiannol ac wedi datblygu cariad at ddarllen. Mae disgyblion yn dechrau darllen testunau syml â chywirdeb cynyddol yn ystod gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar trwy greu marciau wrth iddynt chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn creu brawddegau syml ond pwrpasol i ofyn cwestiynau am gapybara yn ystod eu gwaith ar Dde America. Mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan ddefnyddio ystod o strwythurau brawddeg i ychwanegu diddordeb at eu gwaith, ac yn cynnwys geirfa a ddewiswyd i ennyn diddordeb y darllenydd. Mae'r disgyblion hynaf yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm,

er enghraifft cynllunio a threfnu eu meddyliau a'u barn i baratoi ar gyfer dadl ar b'un a ddylai anifeiliaid fod yn rhan o raglen ofod NASA.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth fathemategol gadarn wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn trefnu rhifau'n gywir wrth iddynt chwarae, ac ym Mlwyddyn 1, dangosant eu dealltwriaeth o ffracsiynau wrth sleisio afalau yn bedwar chwarter. Mae disgyblion hŷn yn cymhwyso'u gwybodaeth yn fedrus wrth ddatrys problemau mathemategol yn gysylltiedig â'u gwaith testun. Er enghraifft, wrth ymchwilio i effaith teithiau awyr ar yr amgylchedd, maent yn tynnu rhifau 4 digid i gyfrifo'r gwahaniaeth mewn milltiroedd sy'n cael eu teithio rhwng bwydydd wedi'u cynhyrchu'n lleol a bwydydd wedi'u mewnforio. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i bob un o'r disgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd mewn meysydd dysgu eraill yn ddigon rheolaidd nac ar yr un lefel â'u medrau mathemategol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn defnyddio rhaglenni celf digidol yn fedrus i greu delweddau o anifeiliaid fforestydd glaw. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn defnyddio rhaglenni animeiddio yn effeithiol i greu ffilmiau byr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn rheoli dyfeisiau rhaglenadwy yn hyderus i ddatblygu a chreu cwmpawd ar gyfer gweithgareddau cyfeiriannu ac arbrofi â deallusrwydd artiffisial i greu posteri am amrywiaeth.

Mae disgyblion yn dechrau datblygu eu medrau a'u mynegiant artistig yn dda. Maent yn mwynhau arbrofi ag ystod o gyfryngau i greu celf effeithiol, wedi'i ysbrydoli gan dechnegau arlunwyr lleol a byd-eang. Mae disgyblion iau yn peintio hunanbortreadau ac yn dynwared arddull arlunwyr o Gymru wrth greu delweddau o'r fro. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu hiaith werthusol yn ystod sesiynau gwerthfawrogi celf yn gysylltiedig â'u gwaith ar ailgylchu a chynaliadwyedd. Ceir llai o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau mynegiannol eraill, fel cerddoriaeth a dawns.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda trwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dringo trwy gylchynau ac yn teithio ar draws trawstiau pren, gan ddangos balans, ystwythder a rheolaeth dda. Mae disgyblion hŷn yn dysgu pasio a derbyn yn ystod chwaraeon tîm ac yn rheoli offer yn fedrus yn ystod gemau amser cinio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn briodol ac yn trosglwyddo'r medrau hyn i'w dysgu a'u medrau datrys problemau. Mae disgyblion iau yn cwblhau heriau yn eu chwarae. Maent yn gwneud rhagfynegiadau cyn arbrofi, er enghraifft wrth ddysgu am arnofio a suddo. Mae disgyblion hŷn yn gweithio'n effeithiol mewn timau i ddylunio hidlwyr dŵr, gan ddadansoddi effeithiolrwydd eu dyluniadau a myfyrio ar sut i'w gwella. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn esbonio'u prosesau meddwl, gan roi rhesymau am eu barn, er enghraifft wrth ymateb i ymholiad gan lywodraethwyr yr ysgol am effaith y cyfyngiadau presennol ar y safle.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r staff ymroddgar yn yr ysgol yn canolbwyntio ar les disgyblion bob dydd. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol y maent yn eu meithrin â nhw yn nodwedd gref o'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod bod rhywun ar gael bob amser i'w helpu pan fydd angen. Maent yn datblygu gwerthoedd cadarn ac ymdeimlad cadarn o gyfrifoldeb.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barchus tuag at staff, ffrindiau, ac ymwelwyr â'r ysgol. Maent yn gwrando'n astud ar bobl eraill ac yn dangos caredigrwydd. Mae disgyblion hŷn yn rhyngweithio'n gadarnhaol â disgyblion eraill wrth chwarae ac yn ystod amser cinio. Maent yn dod o hyd i ffyrdd i wneud amseroedd egwyl yn hamddenol a hwyliog, gan helpu pan fydd angen cymorth ar ddisgyblion eraill â'u lles a'u perthnasoedd. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu strategaethau ar gyfer hunanreoli trwy ystod fuddiol o brofiadau, ac yn defnyddio'r rhain yn dda pan fydd angen, gan wella'u lles, eu perthnasoedd, a'u cyfranogiad.

Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o'u rolau fel dinasyddion cyfrifol sy'n mynd ati i ddylanwadu ar eu bywydau nhw eu hunain a bywydau pobl eraill yn eu cymuned a thu hwnt. Maent yn dysgu am yr heriau sy'n wynebu pobl eraill ac yn deall pwysigrwydd darparu cymorth ac eirioli, pan fo'n bosibl. Er enghraifft, maent yn codi ymwybyddiaeth yn y gymuned leol yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Gweithredu Dementia.

Mae disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn dechrau dylanwadu ar fywyd yr ysgol. Maent yn ymgymryd â chyfrifoldebau arwain yn frwdfrydig ac yn cyfrannu eu syniadau a'u barn am fywyd ysgol trwy gynrychiolwyr grŵp. Mae arweinwyr digidol yn dod o hyd i ffyrdd creadigol o sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd perthnasoedd rhithwir diogel, er enghraifft trwy gynhyrchu fideo diogelwch i'w gyhoeddi ar-lein. Mae'r 'Criw Cymraeg' yn annog gweithgareddau Cymraeg, er enghraifft trwy gemau dyddiol yn yr ystafell ddosbarth. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cyfrannu eu syniadau am yr hyn y maent yn ei ddysgu, ac mae disgyblion hŷn yn dechrau cynnig eu syniadau am sut maent yn dysgu, er enghraifft yn gwneud dewisiadau am sut maent yn casglu a chynrychioli gwybodaeth ar wneud y byd yn lle gwell i fyw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod pam mae gwneud dewisiadau iach yn bwysig ac yn deall effaith bwyta diet cytbwys, parhau i hydradu a chael digon o gwsg. Mae disgyblion hŷn yn datblygu ymwybyddiaeth dda o effeithiau camddefnyddio sylweddau ac yn dysgu sut i ymateb mewn argyfwng. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol ac yn gwneud y gorau o'r amser a dreuliant yn yr awyr agored.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac maent yn aml yn falch o'u cyflawniadau. Maent yn awyddus i ddod i'r ysgol ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu presenoldeb a'u prydlondeb. Yn ystod gwersi, mae disgyblion yn dal ati i ganolbwyntio a chynnal diddordeb, ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n dda, yn gofyn ac yn ateb cwestiynau'n briodol ac yn barod i siarad am eu dysgu. Maent yn gweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau bach, gan gyfrannu at dasgau a rhannu eu syniadau. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn galw dysgu

blaenorol i gof yn effeithiol ac yn aml yn cysylltu eu dysgu â'u profiad eu hunain yn llwyddiannus.

Yn aml, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymgysylltu'n dda iawn â dysgu. O oedran ifanc, maent yn dechrau datblygu'n effeithiol fel dysgwyr annibynnol, ac mae cyfleoedd i fod yn chwilfrydig a chreadigol yn ennyn eu brwdfrydedd. Maent yn parhau i ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol ym Mlwyddyn 1 a 2, gan ddangos cymhelliant a gwydnwch yn gynyddol. Maent yn barod i ddewis yr adnoddau sydd arnynt eu hangen ar gyfer eu dysgu, ac yn hapus i siarad am eu profiadau dysgu. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu medrau dysgu'n annibynnol. Maent yn esbonio'u gwaith yn glir ac yn cydnabod ei ddiben. Maent yn datblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o sut bydd y medrau a'r wybodaeth a ddysgant nawr yn eu helpu yn eu bywydau yn y dyfodol. Yn ystod gwersi, maent yn cynnig awgrymiadau a syniadau ac yn defnyddio eu gwybodaeth a phrofiadau eu hunain. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn datblygu eu meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau datrys problemau yn dda wrth ymateb i ymholiad gan lywodraethwyr yr ysgol am effaith adeilad newydd yr ysgol. Maent yn dadansoddi ac yn trafod y sefyllfa, gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael iddynt gynnig atebion posibl. Fodd bynnag, mewn ychydig o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn ymgysylltu'n llai â'u dysgu. Yn y dosbarthiadau hyn, mae profiadau dysgu yn aml yn cael eu gor-gyfarwyddo ac nid ydynt yn galluogi disgyblion i ddatblygu'n briodol fel dysgwyr annibynnol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn ystod cyfnod o darfu, mae staff wedi gwneud y defnydd gorau o adeiladau dros dro i gynnal amgylchedd dysgu deniadol dan do, ac yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion iau. Mae disgyblion o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2 yn elwa ar eu profiadau dysgu yn yr ardaloedd hyn sydd wedi'u cynllunio'n dda, gan ymgymryd â gweithgareddau sy'n eu galluogi i fod yn chwilfrydig, yn greadigol ac yn ddychmygus yn eu dysgu sy'n seiliedig ar chwarae. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau datblygu eu cydsymud rhwng llaw a llygad wrth chwarae yn y dŵr a'r tywod, a'u creadigrwydd mewn gweithgareddau adeiladu. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ddisgyblion ddychmygu eu dysgu trwy weithgareddau ymarferol, gan gynorthwyo disgyblion ym Mlynyddoedd 1 a 2, er enghraifft, i ddelweddu a dechrau deall ffracsiynau mewn gweithgareddau corfforol ar iard yr ysgol.

Pan mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae cyflymdra'r gwersi yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol cryf. Mae athrawon yn defnyddio holi yn bwrpasol, yn mynd i'r afael â chamdybiaethau ac yn addasu eu haddysgu i gynorthwyo disgyblion yn briodol. Maent yn rhannu disgwyliadau clir, sy'n cefnogi dealltwriaeth disgyblion o beth i'w wneud ac yn creu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion rannu eu meddyliau a'u syniadau. Maent yn rhoi adborth defnyddiol ac uniongyrchol yn ystod gwersi sy'n galluogi disgyblion i ddeall eu camau nesaf mewn dysgu ac yn caniatáu amser ar gyfer myfyrio. Maent yn gwirio ac yn atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion yn rheolaidd. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn mynd i'r afael â chamdybiaethau pwysig, ac mae diffyg manylder i'r dysgu. Yn y dosbarthiadau hyn, nid yw'r profiadau dysgu bob amser yn herio disgyblion yn briodol, ac maent yn cyfyngu ar eu gallu i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Yn aml, mae cynorthwywyr addysgu'r ysgol yn hynod effeithiol o ran cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd yn eu dysgu. Maent yn defnyddio holi'n dda ac yn modelu iaith yn effeithiol. Yn ystod sesiynau ymyrryd, maent yn darparu cymorth cryf ar gyfer disgyblion bregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn datblygu ei chwricwlwm i gyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o arweinwyr ac athrawon yn meddu ar wybodaeth dda am y meysydd dysgu a phrofiad (MDPh) a'r themâu trawsbynciol. Maent yn dechrau cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu pwrpasol sy'n cynnwys ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion ddarganfod hanes a diwylliant Cymru. Mae athrawon yn defnyddio ymweliadau addysgol ac ymwelwyr yn dda i gyfoethogi profiadau dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn elwa ar ymweliadau yn lleol a thu hwnt, sy'n gwella'u dealltwriaeth o gynefinoedd coetiroedd a fforestydd glaw.

Mae athrawon yn dechrau cynllunio dilyniannau o wersi sy'n galluogi disgyblion i drosglwyddo agweddau ar eu gwybodaeth a'u medrau i feysydd eraill yn y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darparu ystod o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion drosglwyddo'u medrau llythrennedd yn briodol. Mae'r ffocws gwerthfawr ar lafaredd o oedran ifanc yn llwyddiannus o ran datblygu disgyblion i fod yn wrandawyr effeithiol a siaradwyr hyderus. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig ymatebion huawdl ac ystyriol, er enghraifft yn ystod dadleuon moesegol. Mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion i feithrin eu medrau llafaredd a darllen yn dda wrth ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn ysgrifennu negeseuon e-bost at arlunydd sy'n byw yn fforest law'r Amazon i gael gwybod sut beth yw bywyd yno. Mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu ar lafur plant yn ystod eu gwaith ar hawliau dynol, ac yn defnyddio technegau perswadiol i annog pobl i leihau eu defnydd o blastig.

Mae athrawon yn cynllunio'n dda i ddisgyblion gymhwyso'u medrau digidol a gwella'u gwaith. Fodd bynnag, er bod llawer o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o gysyniadau mathemategol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd yn bwrpasol ar lefel ddigon uchel. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu cyfleoedd dyddiol i ddisgyblion ymarfer patrymau brawddegau Cymraeg syml. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu gallu yn y Gymraeg y tu hwnt i'r medrau sylfaenol hyn, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd mewn siarad Cymraeg dros gyfnod.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn dechrau cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion wella'u dealltwriaeth o faterion moesegol a moesol yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Maent yn dechrau ystyried sut mae profiadau dysgu yn cynorthwyo disgyblion i godi eu dyheadau a pharatoi ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Mae disgyblion hŷn, er enghraifft, yn dysgu am lwybrau gyrfa posibl yn ystod wythnos gyrfaoedd. Maent yn cymryd rhan mewn gweminarau gydag ystod o weithleoedd i archwilio'r medrau sydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflogaeth. Wedyn, maent yn adeiladu ar y profiadau hyn wrth ddadansoddi elw a cholled yn eu gweithgareddau menter.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Er gwaethaf yr aflonyddwch a achosir gan y gwaith adeiladu presennol, mae staff wedi croesawu'r her ac wedi lleihau'r tarfu ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn parhau

i sicrhau bod gan ddisgyblion ymdeimlad cryf o berthyn, ac mae'r gofal a gânt yn cyfrannu'n sylweddol at eu lles a'u hapusrwydd. Mae staff yn cynnal gwerthoedd yr ysgol trwy eu hymagwedd dosturiol.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion ag ADY, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae arweinwyr wedi sicrhau bod staff yn meddu ar y wybodaeth a'r medrau i ddarparu ymyrraeth fuddiol a chymorth buddiol yn yr ystafell ddosbarth, gan addasu'r cymorth hwn yn briodol yn aml i ddiwallu anghenion unigol disgyblion. Mae arweinwyr wedi creu systemau defnyddiol ar gyfer nodi'r cymorth mwyaf priodol ar gyfer disgyblion bregus ac yn gweithio'n dda gyda staff i fonitro effaith y strategaethau hyn yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu cymorth cryf â phontio ar gyfer teuluoedd y disgyblion ieuengaf wrth iddynt ddechrau yn y dosbarth Meithrin. Mae hyn yn arbennig o effeithiol wrth gynorthwyo rhieni disgyblion ag ADY i'w helpu i baratoi eu plant i ddechrau bywyd ysgol. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi bod yn araf yn mynd i'r afael â gofynion diwygio ADY Llywodraeth Cymru, ac o ganlyniad, nid yw trefniadau i gynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol yn bodloni gofynion statudol yn llawn.

Mae'r ysgol yn datblygu ei hymagwedd at Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn effeithiol, gan ddarparu cyfleoedd hynod werthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwerthoedd a'u credoau. Maent yn mwynhau archwilio dathliadau a meddwl am y storïau y tu ôl iddynt. Maent yn elwa ar gyfleoedd i ddysgu mwy am y modd y gall y negeseuon pwysig y tu ôl i storïau crefyddol eu tywys trwy eu bywydau eu hunain. Mae disgyblion eraill yn dyfnhau eu dealltwriaeth wrth archwilio gwerthoedd trwy gysyniadau crefyddol, fel carma.

Mae disgyblion yn gwneud y gorau o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh). Mae disgyblion iau yn gofyn cwestiynau fel, 'sut ydym ni'r un fath ond yn wahanol?' ac yn ystyried beth mae'n ei olygu i fod yn ffrind da. Maent yn dechrau cydnabod bod gwahanol gymunedau yn eu bro ac o gwmpas y byd, ac yn cysylltu eu gwaith, er enghraifft ar ddiet iach, â hawliau dynol. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol fathau o berthnasoedd, yn ystyried beth mae'n ei olygu i drin pobl eraill yn deg ac yn dechrau meddwl am hunaniaeth a mynegiant. Maent yn ystyried eu hunaniaeth eu hunain ac yn darganfod profiadau bywyd pobl eraill mewn cerddi a storïau. Maent yn defnyddio'u profiadau eu hunain ac yn ffurfio strategaethau ar gyfer cymhwyso'r hyn y maent yn ei ddysgu i'w bywydau eu hunain.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol, gan ystyried, er enghraifft, sut mae eu gweithredoedd nhw fel defnyddwyr yn effeithio ar newid hinsawdd. Er bod disgyblion yn dechrau dysgu am amrywiaeth, megis dechrau datblygu y mae hyn, ac ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, ar y cyfan.

Mae athrawon yn cyfoethogi cwricwlwm yr ysgol trwy ystod o ymweliadau ysgogol sy'n gysylltiedig â'r testunau y maent yn eu cynllunio. Mae disgyblion yn mwynhau ymweliadau â'r theatr, acwaria a gwyliau llenyddiaeth. Mae disgyblion hŷn yn mwynhau gweithio gyda Choleg Cerdd a Drama Cymru i ddatblygu eu hyder a'u medrau yn y celfyddydau perfformiadol. Mae'r ysgol yn aml yn gweithredu'n briodol i leihau effaith tlodi, gan gynorthwyo disgyblion i fwynhau ystod eang o

weithgareddau'r cwricwlwm, yn cynnwys gweithgareddau awyr agored. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol trwy weithgareddau chwaraeon allgyrsiol yr ysgol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod fwy amrywiol o brofiadau, fel cerddoriaeth a dawns, yn gyfyngedig.

Mae staff yn glir am eu cyfrifoldebau a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i ddiogelu disgyblion. Mae gweithdrefnau'r ysgol yn effeithiol ac nid ydynt yn peri pryder. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o sut i fod yn ddiogel. Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion yn drylwyr ac yn nodi'r disgyblion hynny y mae eu presenoldeb yn disgyn islaw lefel dderbyniol. Mae staff yn cyfathrebu â theuluoedd yn briodol i'w cynorthwyo, ac o ganlyniad, mae presenoldeb yn gwella.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yr ysgol wedi sefydlu gweledigaeth glir ac ar y cyd, gyda ffocws ar annog pob un o'r disgyblion a'r staff i fod y gorau y gallant a dangos parch. Mae disgyblion yn defnyddio'r weledigaeth hon i'w harwain wrth wneud penderfyniadau am sut dylent ymddwyn a thrin pobl eraill. Mae'r pennaeth yn arweinydd tosturiol, sy'n creu ethos cadarnhaol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion a'r staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn datblygu perthnasoedd gweithio cryf ar y ddwy ochr ar draws yr ysgol.

Mae uwch arweinwyr yn addasu'n dda i sefyllfaoedd heriol. Maent yn gwneud addasiadau i rolau arwain pan fydd angen, gan ddarparu cyfleoedd buddiol i athrawon profiadol ddatblygu eu medrau arwain. O ganlyniad, mae gan yr ysgol gynllunio olyniaeth addas ar waith, sy'n cynyddu'r gallu i weithredu newid a gwella darpariaeth. Gellir gweld enghraifft gref o'r ymagwedd hon yn natblygiad cydweithredol ac effeithiol ACRh a CGM.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda, gan wneud penderfyniadau'n ofalus i sicrhau bod ffocws cynlluniau gwariant yn parhau i fod ar wella deilliannau ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddarparu cymorth gwerthfawr â lles a dysgu ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel. Maent yn gweithio'n ddiwyd i ddileu rhwystrau rhag dysgu, er enghraifft trwy ddarparu cymhorthdal ar gyfer profiadau allgyrsiol, ymweliadau preswyl a digwyddiadau dathlu'r ysgol.

Mae arweinwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r corff llywodraethol i werthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn rheolaidd, a nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. At ei gilydd, yn gyffredinol, mae blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella yn adlewyrchu anghenion yr ysgol yn gywir. Mae'r ysgol wedi dangos hanes addas o wneud gwelliannau, er enghraifft codi safonau llythrennedd a gwella ehangder y profiadau dysgu a ddarperir. O roi digon o amser iddi weithredu ac ymgorffori newid a gwerthuso effaith strategaethau gwella, mae'r ysgol yn gwneud gwelliannau effeithiol i addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau monitro'r ysgol bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith amserol y gwelliannau. Mewn ychydig o feysydd a nodwyd ar gyfer gwella, mae cyfradd y cynnydd yn rhy araf. Mae uwch arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r cynnydd a wna grwpiau o ddysgwyr, yn cynnwys y rhai ag ADY a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am

ddim. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn canolbwyntio'n rhy agos ar ddata crynodol yn hytrach na datblygu dealltwriaeth gadarn o ddilyniant a fydd yn galluogi athrawon i gynllunio ar gyfer camau nesaf unigol y disgyblion mewn dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr dysgu yn dangos gwybodaeth gadarn am arfer orau mewn addysgu a dysgu. Er enghraifft, mae'r addysgu hynod effeithiol yn y dosbarthiadau ieuengaf yn galluogi disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus trwy archwilio a chwarae. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i staff rannu ac adeiladu ar yr arfer gref sy'n bodoli yn yr ysgol, ac o ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu yn amrywiol. Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i bob un o'r staff drafod eu cryfderau eu hunain a nodi agweddau ar eu rôl y maent yn dymuno'u gwella. Mae targedau perfformiad yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol. At ei gilydd, mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol yr ysgol yn cynorthwyo llawer o athrawon i ddatblygu addysgeg addas. Er enghraifft, o ganlyniad i hyfforddiant ar ddatblygu medrau ysgrifennu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau dysgu proffesiynol bob amser yn canolbwyntio'n ddigon agos ar ychydig o'r meysydd pwysicaf i'w gwella, fel rhifedd a Chymraeg.

Mae llywodraethwyr yn deall eu dyletswydd statudol i sicrhau darpariaeth ar gyfer bwyta ac yfed yn iach. Maent yn deall eu rôl i ddiogelu disgyblion ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n ddiwyd. Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth a her briodol ar gyfer uwch arweinwyr, er enghraifft wrth drafod cyllideb yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw llywodraethwyr bob amser yn herio arweinwyr yn ddigon trylwyr ar gynnydd ychydig o flaenoriaethau gwella'r ysgol ac effaith polisïau a chamau gweithredu ar gynnydd disgyblion.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn rhannu profiadau dysgu disgyblion yn rheolaidd trwy blatfform digidol. Mae'r ysgol yn trefnu cyfleoedd defnyddiol i rieni ymgymryd â digwyddiadau yn yr ysgol, yn cynnwys cyngherddau a gweithdai. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i rieni ddod i wybod am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu, a sut gallant eu cynorthwyo gartref. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r gymuned leol ac mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau, digwyddiadau a chystadlaethau lleol. Mae'r cysylltiadau cryf hyn yn rhoi Ysgol Gynradd Pont-y-clun wrh ganol y gymuned leol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2024